Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

# Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom

## Sut mae'r Cyfrifiad o fudd i bawb

Mae pob un ohonom yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar wahanol adegau – yn cynnwys ysgolion, gwasanaethau iechyd, ffyrdd a llyfrgelloedd. Mae angen cynllunio'r gwasanaethau hyn, ac mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn mynd law yn llaw â phatrymau cyfnewidiol bywyd modern. Eto mae'n amhosibl cynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl 'anweledig'. Mae angen gwybodaeth gywir arnom ar nifer y bobl, lle maent yn byw a beth yw eu hanghenion.

Bob deng mlynedd mae'r Cyfrifiad yn unioni pethau. Mae'n rhoi darlun i ni o'r genedl gyfan, ac mae hyn yn rhywbeth unigryw. Mae'n cyfrif nifer y bobl sy'n byw ym mhob dinas, tref ac ardal wledig. Mae'n dweud rhywbeth wrthym am bob ardal a'i phoblogaeth, yn cynnwys cyflwr eu hiechyd, beth yw eu gwaith a'r math o gartref sydd ganddynt.

Oherwydd y gofynnir yr un cwestiynau ac y caiff y wybodaeth ei chofnodi yn yr un modd ledled y DG, mae'r Cyfrifiad yn ein galluogi i gymharu grwpiau gwahanol o bobl ledled y wlad.

Er bod y Cyfrifiad yn costio tua £255 miliwn ar gyfer y DG gyfan, mae'r wybodaeth a ddarperir ganddo yn golygu bod biliynau o bunnoedd o arian trethdalwyr yn cael ei dargedu i'r ardaloedd sydd ei angen fwyaf. Rhydd y Cyfrifiad ddata gwerthfawr i ni yn y meysydd canlynol:

### Poblogaeth

Mae cyfrif cywir o'r boblogaeth ym mhob ardal leol yn helpu llywodraeth ganolog i fesur maint y grantiau a ddyrennir i bob awdurdod lleol ac awdurdod iechyd. Yn eu tro, bydd yr awdurdodau hyn yn defnyddio gwybodaeth y cyfrifiad wrth gynllunio gwasanaethau o fewn eu hardaloedd.

YSTADEGAU GWLADOL

**Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad,
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Tel: 01329 813800
e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk**

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

Taflenni ffeithiau eraill:


1. Y Cyfrifiad
3. Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n Newydd?
4. Cyfrif Pawb – y Sialens Fawr
5. Trefniadaeth y Cyfrifiad
6. Swyddi'r Cyfrifiad
7. Y Cyfrifiad a'r Gyfraith
8. Y Cyfrifiad drwy'r Oesoedd


## Tai

Mae cyfrif y gwahanol fathau o anheddau a'r bobl sydd ynddynt yn helpu cynllunwyr i nodi llety annigonol ac asesu'r galw am dai newydd.

## Cyflogaeth

Mae'r Cyfrifiad yn dangos faint o bobl sy'n gweithio mewn gwahanol alwedigaethau a diwydiannau ledled y wlad, gan helpu'r llywodraeth a busnesau i gynllunio swyddi a pholisïau hyfforddi a gwneud penderfyniadau cytbwys.

## Trafnidiaeth

Mae gwybodaeth a gesglir ar deithio i'r gwaith ac yn ôl, ac ar argaeledd ceir, yn cyfrannu at gynllunio ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus.

## Iechyd

Bydd data ar iechyd cyffredinol, salwch hir dymor a darpariaeth gofal yn galluogi'r Llywodraeth i gynllunio gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a dyrannu adnoddau yn y ffordd orau.

## Grŵp ethnig

Mae data ar grwpiau ethnig yn helpu i nodi maint a natur anfantais hiliol ym Mhrydain a mesur llwyddiant polisïau cyfle cyfartal. Mae'r wybodaeth yn helpu llywodraeth ganolog a lleol i ddyrannu adnoddau a chynllunio rhaglenni i ystyried anghenion grwpiau lleiafrifol.

## Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:


**Ymholiadau'r wasg yn unig:**
Ffôn: 020 7533 5160

**Ymholiadau cyhoeddus yn unig:**
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs: 01329 813587

ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk